Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diweddariad am y brechlyn
Vaccination Update

Cylchlythyr Wythnosol *Weekly Newsletter*

CYHOEDDIAD: 37 WYTHNOS 28/09/2021

CYNNYDD WYTHNOSOL 20 – 26 MEDI 2021

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi rhoi 12,221 o frechiadau covid-19 yn ystod wythnos gyntaf y Rhaglen Brechiadau Atgyfnerthu COVID-19.

Dywedodd Marjorie Browning, 96 oed, sy'n byw yng Nghartref Gofal Fields, "Rwy'n lwcus iawn i fyw'n ddiogel drwy bandemig Covid-19 gyda'r cariad a'r gofal maent yn ei roi yng Nghartref Gofal Fields. Maent wedi rhoi sylw gofalus i olchi dwylo a gwisgo masgiau a ffedogau. Rydym yn cael digonedd o awyr iach ac rydym i gyd wedi cael ein brechu. Rwy'n teimlo'n ddiogel nawr fy mod wedi cael fy mrechiad atgyfnerthu, ac rwy'n annog pawb i wneud yr un fath."

Dywedodd Nagga Boddu, Gofalwr Cartref yng Nghartref Gofal Fields, "Rwyf wedi bod yn gweithio yng Nghartref Gofal Fields ers tair blynedd a hanner. Rwyf wrth fy modd â'm swydd ac rwy'n falch o ofalu am y preswylwyr yma. Roedd yn frawychus iawn pan ddechreuodd Covid-19. Rwy'n feichiog ac mae gen i ferch pum mlwydd oed i'w hystyried hefyd. I mi, gwneud popeth o fewn fy ngallu i amddiffyn fy hun, fy mabi, a'r bobl rwy'n eu caru yw'r flaenoriaeth fwyaf felly roedd cael fy mrechiad Covid-19 yn rhyddhad enfawr. Mae gennym ni i gyd feddwl mawr o bob preswylydd sy'n byw yng Nghartref Gofal Fields ac felly mae'n rhaid rheoli heintiau yn y gwaith a thu allan i'r gwaith. Efallai y bydd rhai nad ydynt wedi cael y brechiad, neu efallai heb gael eu hail ddos; Byddwn yn eu

FFIGYRAU BRECHU

Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)

875,137

Cyfanswm y dos cyntaf	449,572
Cyfanswm yr ail ddos	425,565

Pobl 60 oed a'n hŷn	96% 95%
Grŵp 6 (Agored i Niwed)	91% 88%
Pobl 55-59 mlwydd oed	93% 91%
Pobl 50-54 mlwydd oed	91% 89%
Pobl 40-49 mlwydd oed	87% 84%
Pobl 30-39 mlwydd oed	81% 76%
Pobl 18-29 mlwydd oed	80% 72%
Pobl 16-17 mlwydd oed	77% 16%

YR WYTHNOS I DDOD 27 MEDI – 3 HYDREF 2021

Pwy ydym ni'n eu brechu'r wythnos hon?

Yr wythnos hon, rydym yn brechu trigolion imiwnoataliedig, preswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr, trigolion dros 70 oed, pobl ifanc â chyflyrau iechyd sylfaenol, staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen, ynghyd â phobl ifanc 12-15 oed.

Sut fyddaf yn cael fy ngwahodd i fy apwyntiad brechiad atgyfnerthu COVID-19?

Gwahoddir unigolion i fynychu apwyntiad brechiad atgyfnerthu Covid-19 drwy lythyr, yn yr un modd y cawsant eu hail ddos.

Hoffem atgoffa pawb i beidio â chysylltu â'u meddygfa Meddyg Teulu i ofyn am apwyntiad. Bydd apwyntiadau'n cael eu hanfon at drigolion drwy lythyr.

Galw ar bob menyw beichiog:

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod beichiog sy'n cael COVID-19 yn ddifrifol wael. Fodd bynnag, mae risg fach o salwch difrifol i'r fam a'r baban, megis bod angen eu derbyn i uned gofal dwys a genedigaeth gynamserol. Mae'r risgiau hyn yn uwch yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd ac mewn menywod sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

Ffoniwch 0300 3031373 i drefnu eich apwyntiad brechiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rcog.org.uk/covid-vaccine

Imiwnoataliedig

Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cynnig trydydd dos sylfaenol o'r brechiad COVID-19 i unigolion 12 oed a hŷn sydd â gwrthimiwnedd difrifol, oherwydd cyflyrau iechyd sylfaenol neu driniaeth feddygol. Mae JCVI wedi dweud y dylai'r grŵp hwn o gleifion fod yn flaenoriaeth o ran cael trydydd dos, gan ei bod hi'n bosibl nad yw eu brechiadau sylfaenol wedi creu ymateb imiwnedd sylweddol yn eu cyrff hyd yn hyn.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn rhan o'r grŵp hwn, cysylltwch â'n tîm brechu ar 0300 303 1373 cyn gynted â phosibl. Bydd ein tîm yn cymryd manylion perthnasol ac yna'n cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich safle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination

Am ragor o wybodaeth, ac i wneud cais am Basport Brechlyn Covid GIG, ewch i:
https://llyw.cymru/manteisiwch-ar-bas-covid-y-gig-i-ddangos-eich-statws-brechu-er-mwyn-teithio
Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan:
https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary
Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i:
https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/